## Atodiad A

## Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol

**Dechreuodd yr ymgynghoriad** Ddydd Gwener 29 Tachwedd 2024
**Daeth yr ymgynghoriad i ben** Ddydd Gwener 10 Ionawr 2025

**Ymatebion o'r ymgynghoriad**

- Cafwyd 34 ymateb gan gwsmeriaid a chynrychiolwyr lleol

**Y prif faterion a godwyd**

- Pellter
- Parcio
- Peiriant ATM

**Ymateb i'r materion a godwyd**

**Pellter**
Croesawodd cwsmeriaid y symud a chafodd eu cefnogaeth am fod y lleoliad newydd yn fwy canolog ac yn gyfleus o ran cyrchu gwasanaethau Swyddfa'r Post. Roedd gan rai cwsmeriaid bryderon y bydd ganddynt daith hirach i gyrchu gwasanaethau Swyddfa'r Post. Rwy'n cydnabod y gallai'r symud olygu bod gan rai cwsmeriaid daith ychydig yn hirach nag ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r lleoliad newydd yn agosach at y dref ac o fewn taith gerdded i'r lleoliad blaenorol. Mewn sefyllfaoedd fel hyn, bydd rhai cwsmeriaid yn dioddef mwy o anghyfleustra nag eraill, ac ni allwn ond ymddiheuro am hyn. Fodd bynnag, rydym yn hyderus o hyd na fydd y symud yn amharu'n ormodol ar gwsmeriaid wrth iddynt gyrchu gwasanaethau Swyddfa'r Post.

Gallwn gadarnhau y bydd y gangen newydd tua 750 metr o'r gangen flaenorol, ar hyd tir amrywiol ei natur. Credwn taw symud i'r lleoliad hwn yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddiogelu hyfywedd hirdymor i wasanaethau Swyddfa'r Post yn y gymuned leol. O ran cerdded i'r lleoliad newydd, gallwn gadarnhau fod yna balmentydd mewn cyflwr da, gydag ymylon isel, ar hyd y ffordd o'r safle blaenorol.

**Parcio**
Er ein bod wedi ystyried rhai sylwadau am barcio yng nghyffiniau'r lleoliad newydd, mae'n deg dweud fod hyn yn broblem gyffredinol mewn sawl lleoliad ar draws y DG. Mae'r lle sydd ar gael i barcio y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Swyddfa'r Post Cyfyngedig. Gwnaed arolwg pellach o'r sefyllfa parcio a gallwn gadarnhau y bydd cwsmeriaid yn eu cerbydau eu hunain yn gallu parcio gerllaw am gyfnod cyfyngedig ac mae yna nifer o feysydd parcio Talu a Dangos ar gael yn y cyffiniau, ynghyd â pharcio i bobl anabl ar hyd Lôn Carmley, Stryd y Brenin Siôr a Stryd Alexandra. Felly, rydym yn fodlon bod digon o le i barcio yng nghyffiniau'r gangen newydd ar gyfer cwsmeriaid a fydd yn defnyddio'r Swyddfa Bost newydd.

**Peiriant ATM**
Caiff peiriant arian Swyddfa'r Post o'r gangen flaenorol ei drosglwyddo i'r gangen newydd.

